# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,**<br>**17 MEHEFIN 2026 am 1.30 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY,**<br>**17 JUNE, 2026 at 1.30 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Ieuan Williams

**Plaid Lafur / Wales Labour Party**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Ifan Jones, Jackie Lewis, Nicola Roberts, Robin Williams (2 Sedd Wag/Vacant Seats)

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones

**Aelod Unigol/Unaffiliated**

Celfyn Furlong

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, 2026.

**5** **YMGYNGHORIAD AR Y WELEDIGAETH, AMCANION AC OPSIYNAU - ADRODDIAD CRYNO** (Tudalennau 5 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ken Taylor (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Swyddog Cynllunio (DFJ),<br>Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (LW),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd John Ifan Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Melissa Kurihara – Cyfarwyddwr LUC |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2026 yn gywir.

**4 PAPUR YMGYNGHORI AR Y WELEDIGAETH, AMCANION AC OPSIYNAU DRAFFT**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod yr adroddiad y amlinellu ail gam y broses i baratoi proses Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol - Datblygu Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau. Nid yw ymgynghori ar y cynllun yn ofyniad strategol, ond mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cymunedau a rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi barn ar ddatblygu'r ynys yn y dyfodol. Mae'r cam hwn yn cynrychioli'r ymgynghoriad sylweddol cyntaf wrth baratoi y Cynllun Datblygu Lleol newydd, a'r bwriad yw adnabod y prif faterion cynllunio, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Ynys; sefydlu Gweledigaeth ac Amcanion Strategol drafft; cyflwyno opsiynau ar gyfer twf a dyrannu datblygiadau'n ofodol; ymgysylltu'n gynnar er mwyn llunio'r cam nesaf, y Strategaeth a Ffafrir. Nododd fod y prif faterion, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn wedi eu hadnabod wrth ystyried deddfwriaeth gynllunio, polisi a chanllawiau cenedlaethol, adolygu blaenoriaethau strategol y Cyngor a chwblhau gweithgarwch ymgysylltu dechreuol gyda rhanddeiliaid. Cynaliadwyedd tai cymdeithasol, darparu seilwaith ar gyfer twf uchelgeisiol, ymateb i newid hinsawdd, hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant, gwarchod yr amgylchedd hanesyddol naturiol a rheoli adnoddau a hyrwyddo'r llunio lle a llesiant.

Mae Pennod 5 yr adroddiad yn amlygu'r Weledigaeth er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn canolbwyntio ar yr holl bolisïau er mwyn gallu ei ddarparu, a bydd gweledigaeth glir a chryf ar gyfer y dyfodol wrth wraidd y ddogfen gyfan. Dylai'r Weledigaeth ddarparu safbwynt gofodol sy'n sicrhau bod y Cynllun yn unigryw i Ynys Môn, a dylai fod yn ddisgrifiad uchelgeisiol o'r math o le fydd yr Ynys ar ddiwedd oes y Cynllun.

Mae Pennod 6 yr adroddiad yn amlinellu amcanion drafft y Cyngor. Bydd yr amcanion drafft yn sicrhau bod y weledigaeth ddrafft, fel y nodir ym Mhennod 5, yn cael ei darparu a bydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae Pennod 7 yr adroddiad yn cyfeirio at y trywydd polisi arfaethedig, gan roi trosolwg o'r meysydd gwahanol o fewn trywydd y polisi. Darperir thema a chrynodeb o faes pwnc, ynghyd a throsolwg o'r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol hollbwysig; newidiadau arfaethedig o bolisi/dull y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol a'r dystiolaeth ofynnol i gefnogi trywydd y polisi arfaethedig.

Mae Pennod 8 yr adroddid yn edrych at sefyllfaoedd i ddatblygu tai a chyflogaeth. Mae'n ystyried y wybodaeth gyd-destunol a ddarperir ym Mhennod 3 a 4, ac mae'n ystyried faint o gartrefi a swyddi ychwanegol fydd yn ofynnol, o bosibl, er mwyn cynllunio rhwng 2024 a 2039.

Mae Pennod 9 yr adroddiad yn cyfeirio at Opsiynau Gofodol sy'n canolbwyntio at y prif setliadau, gan gydnabod Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy fydd yn gweld posibiliadau twf newydd, ac i safleoedd maint bychan a chanolig yn mwyafrif y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Phentrefi yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol. Canolbwyntir ar safleoedd tir llwyd ac adfywio canolfannau trefol. Ystyrir Datblygiad Gwasgaredig ar draws yr holl aneddiadau ar lefel sy'n gymesur â maint pob anheddiad yn seiliedig ar y boblogaeth o fewn pob anheddiad. Bydd y Coridor Trafnidiaeth yn ystyried datblygiad ar hyd coridor yr A55 sy'n rhedeg o Borthaethwy i Gaergybi. Byddai hefyd yn ffafrio safleoedd sydd â mynediad hawdd at ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cynllunio at y camau nesaf yn y broses, sef cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 5 wythnos o 16 Chwefror tan 20 Mawrth, 2026. Bydd crynodeb o'r adborth yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor hwn.

Cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor y llwyfannau i'w defnyddio yn y broses ymgynghori. Dywedodd Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio y rhoddir cyfle i'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad drwy wefan y Cyngor, a bydd copïau papur o'r ddogfennaeth ar gael mewn Llyfrgelloedd lleol a holl Swyddfeydd y Cyngor ar yr Ynys. Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor yw trwy blatfform Opus ar wefan y Cyngor. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn gofyn i Swyddfa'r Wasg y Cyngor hysbysebu'r ymgynghoriad ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.

Mynegodd y Cynghorydd Robert Ll Jones bryder bod Gwarchodfa Natur Penrhos wedi'i hepgor o'r rhestr o aneddiadau a lleoedd allweddol yn 3.2.1 o Bennod 3 yr adroddiad. Dywedodd Cyfarwyddwr – LUC y byddai cyfeiriad at y safle yn y ddogfennaeth.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno ar unrhyw welliannau angenrheidiol i'r Papur Ymgynghori Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau drafft;**
- **Cefnogi paratoi drafft terfynol o'r Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau;**

- **Cwblhau cyfnod ymgynghori cyhoeddus pum wythnos rhwng 16 Chwefror a 20 Mawrth, 2026;**
- **Rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog Cynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i wneud unrhyw fân addasiadau er cywirdeb cyn cychwyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.**

## 5 ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG

Cyflwynwyd – yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Cyfarwyddwr LUC fod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ASA) yn ddogfen sy'n ymgorffori datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol ac yn cynnwys nifer o asesiadau a gweithdrefnau rheoleiddio ochr yn ochr ag asesiadau iechyd a chydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg, asesiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd  Cyfeiriodd at y ffaith bod Adroddiad Cwmpasu wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn flaenorol a oedd yn nodi fframwaith o amcanion.  Mae datblygu set o amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ffordd gydnabyddedig o gael effeithiau cynaliadwyedd tebygol ar Gynllun.  Datblygwyd fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn yn ystod y cyfnod Cwmpasu fel y nodir ym Mhennod 2 o'r adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones fod map Ynys Môn yn yr adroddiad yn gamarweiniol gan fod Ynys Gybi yn ynys fawr a bod angen cydnabod y sianel rhwng yr ynysoedd.   Dywedodd y Cadeirydd y byddai gwelliannau i'r map yn cael eu gwneud cyn y broses ymgynghori.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sîr Ynys Môn | |
|---|---|
| Adrodd i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 17 Mehefin 2026 |
| Pwnc: | Ymgynghoriad ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau – Adroddiad Cryno |
| Aelod (au): | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Lowri F. Williams, Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio<br><br>lowriwilliams3@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i bob Aelod Etholedig |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i:

- Gyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol ar y papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn (2024–2039).
- Cael cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad.
- Cadarnhau'r camau nesaf wrth symud y Cynllun ymlaen tuag at gam y Strategaeth a Ffefrir.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd i lywio datblygiad ar yr Ynys dros y cyfnod 2024–2039.

2.2 Fel rhan o gamau cynnar (cyn-Adneuo) paratoi'r cynllun, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol ar y papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau rhwng 20 Chwefror a 25 Mawrth 2026.

2.3 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar:

- Materion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn
- Y Weledigaeth a'r Amcanion Strategol drafft

- Opsiynau twf (lefelau tai a chyflogaeth)
- Opsiynau strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu datblygiad

2.4 Derbyniwyd cyfanswm o 58 o ymatebion gan randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd.

**3.0 Canfyddiadau Allweddol o'r Ymgynghoriad**

3.1 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at nifer o faterion pwysig i'w hystyried ymhellach:-

- **Yr iaith Gymraeg a Chymunedau**
    - Pryder ynghylch cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg
    - Galwadau am ymyriadau polisi cryfach, gan gynnwys rheolaethau ar ail gartrefi a blaenoriaethu anghenion lleol
    - Pwyslais ar roi'r iaith Gymraeg wrth wraidd y Cynllun

- **Tai a Fforddiadwyedd**
    - Fforddiadwyedd tai wedi'i nodi fel problem sylweddol
    - Cefnogaeth ar gyfer tai fforddiadwy, darpariaeth ar gyfer anghenion lleol, a datblygiad ar raddfa fach/dan arweiniad y gymuned
    - Pryderon ynghylch datblygiadau ar raddfa fawr a phwysau hyfywedd

- **Y Strategaeth Weledol**
    - Barn gymysg ar yr opsiynau, gyda chefnogaeth i ddulliau sy'n canolbwyntio ar anheddleoedd a dulliau gwasgaredig
    - Ffafraeth gref am ddull hybrid sy'n cydbwyso cynaliadwyedd, seilwaith ac effeithiau cymunedol

- **Opsiynau Tyfiant**
    - Dim consensws ar lefelau tyfiant

- Pryder gyffredinol ynghylch senarios twf uchel a dibyniaeth ar brosiectau mawr
- Pwyslais ar alinio twf ag anghenion lleol yn hytrach na gyrwyr allanol

- **Isadeiledd**
  - Pryderon sylweddol ynghylch capasiti (dŵr, carthffosiaeth, trafnidiaeth)
  - Angen i seilwaith gael ei ddarparu ochr yn ochr â datblygiad

- **Yr Amgylchedd a Defnydd Tîr**
  - Cefnogaeth i ddiogelu tirweddau sensitif a bioamrywiaeth
  - Pryderon ynghylch datblygu ar dir amaethyddol o ansawdd uchel

- **Twristriaeth**
  - Pryderon ynghylch ail gartrefi, yr economi dymhorol ac effeithiau cymunedol

- **Y Broses Ymgynghori**

o Rhai pryderon wedi eu codi ynghylch hygyrchedd, cyhoeddusrwydd ac amserlenni

**4.0 Goblygiadau allweddol ar gyfer y cam nesaf**

4.1 Mae'r adborth yn cadarnhau bod cyfeiriad cyffredinol y Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gefnogi'n eang ond mae angen ei fireinio mewn sawl maes:-

• Cryfhau rôl yr iaith Gymraeg o fewn y strategaeth

• Sicrhau bod y Cynllun yn darparu tai fforddiadwy sy'n cŷd-fynd ag anghenion lleol

• Datblygu strategaeth ofodol gytbwys, gan gynnwys elfennau hybrid yn ôl pob tebyg

• Profi opsiynau twf trwy sail dystiolaeth gadarn

• Sicrhau bod darparu seilwaith yn rhan annatod o gynigion datblygu

4.2 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i lywio'r Strategaeth a Ffefrir.

4.3 Dylid nodi nad yw'r adroddiad Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau wedi'i uwchgyfeirio'n ffurfiol y tu hwnt i'r Gwasanaeth yn y broses ar hyn o bryd.

5.1 **Camau Nesaf**

5.1 Y cam nesaf yn y broses o baratoi'r CDLl yw paratoi ac ymgynghori â'r cyhoedd ar y Strategaeth a Ffefrir, a fydd yn:

- Nodi lefel twf a dull gofodol a ffefrir gan y Cyngor
- Cael ei gefnogi gan sail dystiolaeth wedi'i diweddaru
- Bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus statudol ffurfiol

5.2 Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn adlewyrchu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, unrhyw asesiadau technegol a rhai sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn adlewyrchu gofynion polisi cynllunio Cenedlaethol.

5.3 Bydd ymgysylltu parhaus yn cael ei wneud yn unol â Chynllun Ymglymiad Cymunedol y Cyngor.

**6.0 Argymhelliad**

6.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn:

- Nodi canfyddiadau adroddiad ymgynghori Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau;
- Cymeradwyo'r negeseuon allweddol a nodwyd i lywio'r Strategaeth a Ffefrir

**7.0 Atodiadau**

- Atodiad 1 – Crynodeb o Adroddiad Ymgynghori Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau (Mai 2026)

DRAFT

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru
anglesey.gov.wales

# Cynllun Datblygu Lleol: Adroddiad Cryno Gweledigaeth, Amcanion ac Ymgynghoriad Opsiynau

Ebrill 2026

v6.0

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn   cyngormon   cyngormon   cyngormon

# Cynnwys

**Pennod 1** .......... **2**

1.1 Trosolwg .......... 2

1.2 Pwrpas yr Adroddiad .......... 2

1.3 Ymgynghoriad ISA .......... 3

**Pennod 2** .......... **5**

2.1 Dull ymgynghori .......... 5

2.2 Sgop yr Ymgynghoriad .......... 6

**Pennod 3** .......... **7**

3.1 Adborth ar Brif Faterion, Heriau a Chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn .......... 7

3.2 Adborth ar y Weledigaeth ac Amcanion .......... 12

3.3 Adborth ar opsiynau Twf .......... 12

3.4 Adborth ar yr opsiynau Gofodol .......... 12

**Pennod 4** .......... **14**

4.1 Casgliadau a Chamau Nesaf .......... 14

# Pennod 1

## 1.1 Trosolwg

1.1.2 Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn newydd (CDLl) ar gyfer y cyfnod 2024-2039. Mae hyn yn cynrychioli cyfle sylweddol i sefydlu fframwaith eglur a chadarn i arwain datblygiad yn y dyfodol ar draws yr ynys ac i fod yn sail i benderfyniadau cynllunio dros y 15 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae Ynys Môn yn parhau i brofi newid a buddsoddiad mewn amrywiaeth o sectorau, ac mae yna uchelgais cryf i sicrhau datblygiad o safon uchel, sy'n gynhwysol ac yn gynaliadwy sy'n cefnogi anghenion ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd gan hefyd gynnal cydlyniant cymunedol.

1.1.3 Pwrpas y Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau bod datblygiad yn digwydd yn y lleoliadau cywir, ar y raddfa gywir ac am y rhesymau cywir. Mae'n hanfodol felly, ar y cam cynnar hwn o baratoi ar gyfer y cynllun, bod y prif broblemau, blaenoriaethau ac opsiynau posib ar gyfer Ynys Môn yn cael eu hadnabod yn eglur a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd ag ymgysylltiad ystyrlon gyda rhanddeiliaid, sefydliadau partner a chymunedau lleol.

1.1.4 Bydd y Cynllun newydd yn cymryd lle Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 (o safbwynt bod yn berthnasol i Ynys Môn) a bydd yn darparu fframwaith polisi cynllunio sy'n benodol ar gyfer Ynys Môn. Er mwyn hwyluso unrhyw gyfeirio, cyfeirir ato fel y "CDLl Newydd Ynys Môn".

1.1.5 Bydd y CDLl yn cael ei baratoi yn unol â Chytundeb Cyflawni cytunedig y Cyngor a gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn amlinellu'r amserlen ar gyfer paratoi (gweler ffigwr 1) ac, yn bwysig, y dull o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy gydol y broses. Mae'r ymgynghoriad Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau diweddar yn nodi carreg filltir allweddol yn y broses, a bydd yr adborth a dderbyniwyd yn chwarae rhan hanfodol yn llunio camau nesaf paratoi ar gyfer y Cynllun.

1.1.6 Ni fydd yr adborth a dderbynnir yn arwain at newidiadau polisi yn syth, ond bydd yn sail i ddatblygu'r Strategaeth Ddewisol a'r sail tystiolaeth atodol.

## 1.2 Pwrpas yr Adroddiad

1.2.1 Yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yng Nghytundeb Cyflawni'r Cyngor, a chan adlewyrchu dull rhagweithiol tuag at ymgysylltiad cynnar, ymgymerodd y Cyngor ag ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol cychwynnol fel rhan o'r camau cyn adneuo o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (gweler ffigwr 1 isod). Digwyddodd yr ymgysylltiad hwn rhwng 20fed Chwefror 2026 - 25ain Mawrth 2026 ac fe wnaeth geisio barn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, sefydliadau ac unigolion ynghylch:

- y prif broblemau, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn
- y fersiwn drafft a'r amcanion
- cyfres o opsiynau twf posib
- cyfres o opsiynau gofodol posib




*Ffigwr 1: Camau Cynhyrchu CDLl*

1.2.2 Cynhyrchodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 58 o ymatebion, gan arddangos lefel dda o ddiddordeb yng nghynlluniau defnydd tir yn y dyfodol ar yr Ynys.

1.2.3 Mae'r Adroddiad hwn yn dwyn ynghyd themâu allweddol a'r 'prif negeseuon sy'n codi o'r ymgysylltiad hwnnw fydd yn ffurfio cyfeiriad strategol newydd y CDLl Ynys Môn newydd.

1.2.4 Bydd y sylwadau a'r adborth a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad anstatudol hwn yn helpu i fod yn sail i baratoi Strategaeth Ddewisol y CDLl a'i sail tystiolaeth atodol. Pan fydd wedi'i gyhoeddi, bydd y Strategaeth Ddewisol yn ddarostyngedig i **ymgynghoriad statudol**, gan ddarparu cyfleoedd pellach i randdeiliaid a'r cyhoedd i gyflwyno datganiadau, cwynion neu ddadleuon ffurfiol fydd yn dylanwadu ar gamau nesaf paratoi'r Cynllun.

1.2.5 Er bod yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u hystyried yn ofalus, nid yw'r Adroddiad hwn yn darparu ymateb manwl, unigol i bob un o'r sylwadau hynny a dderbyniwyd. Mae hyn yn adlewyrchu **natur anffurfiol ac ymchwiliol** yr ymgysylltiad cynnar, anstatudol hwn. Prif bwrpas yr ymgynghoriad oedd profi p'un a yw'r dull newydd yn briodol i Ynys Môn yn gyffredinol, adnabod meysydd sy'n achos pryder, a thynnu sylw at ble mae angen adolygiadau neu waith pellach.

1.2.6 Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r ddogfen hon yn cynrychioli adroddiad ymgynghoriad ffurfiol na statudol. Cynhyrchir adroddiadau ymgynghori statudol ar y camau perthnasol o'r broses o baratoi CDLl, yn unol â gofynion rheolaethol. Bydd yr holl sylwadau priodol a dderbynnir yn ystod ymgynghoriadau statudol y dyfodol, gan gynnwys rhai ar y Strategaeth Ddewisol, yn cael eu cofnodi'n ffurfiol, eu cydnabod a'u hymateb iddynt fel rhan o ddilyniant y Cynllun.

## 1.3 Ymgynghoriad ISA

1.3.1 Mae Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ill dau yn ofynion statudol (s39 (2) PCPA 2004 a Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 5(2) a 5(4), yn y drefn honno). Mae'r gofyniad statudol i ymgymryd â Gwerthusiad Cynaliadwyedd, sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn darparu tystiolaeth ar gyfer dewisiadau polisi a gofodol a'r rhesymeg drostynt, a dylai wahodd ymgysylltiad gan y gymuned a'r rhanddeiliaid ar bob cam o'r broses gynllunio.

1.3.2 Mae'r Cyngor yn ymgymryd â dull integredig tuag at Werthusiad Cynaliadwyedd (ISA). Golyga hyn y bydd yr ISA yn ymgorffori asesiadau eraill megis Asesiad Traweffaith Iechyd (HIA), Asesiad Traweffaith Cydraddoldeb (EqIA) ac assiad o'r Gymraeg, yn ogystal â mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6).

1.3.3 Cam cyntaf ISA yw paratoi adroddiad sgopio.

1.3.4 Roedd y cam sgopio'n cynnwys:

- adolygu cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol
- Ystyried llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd
- Adnabod prif faterion cynaliadwyedd
- nodi'r fframwaith ISA (cyfres o amcanion cynaliadwyedd ar gyfer asesu effeithiau tebygol y cynllun)
- datblygu methodoleg arfaethedig a ddefnyddir yn ystod camau olaf ISA gan gynnwys asesu safleoedd ymgeiswyr.

1.3.5 Ymgynghorwyd ar yr adroddiad sgopio o 9 Gorffennaf 2025 i 13 Awst 2025.

1.3.6 Paratowyd dogfen adroddiad ISA gychwynnol o'r Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau. Mae'r Adroddiad ISA Cychwynnol yn cyflwyno dadansoddiad cydweddoldeb o amcanion CDLl ac amcanion ISA, yn ogystal â gwerthusiad o'r senarios twf a'r opsiynau gofodol oedd yn cael eu hystyried. Cafodd yr adroddiad ISA ei gyhoeddi ar gyfer sicrhau sylwadau ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau.

1.3.7 Ystyrir ymatebion yr ymgynghoriad ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, er mwyn sicrhau bod traweffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y Strategaeth Ddewisol.

# Pennod 2

## 2.1 Dull ymgynghori

2.1.2 Cafodd y Papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn unol â Chytundeb Cyflawni Cyngor Ynys Môn a gofynion y broses paratoi CDLl. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Chwefror 2026 a 25 Mawrth 2026.

2.1.3 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid, cymunedau a grwpiau o ddiddordeb allweddol yn cael eu darparu gyda chyfleoedd rhesymol i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

2.1.4 Cafodd gweithgaredd ymgynghori ei gynllunio i fod yn gymesur ac yn briodol at ddibenion yr ymgynghoriad, gan gydnabod natur strategol y Papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau. Gwnaed yr wybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad ar gael yn eang drwy wefan y Cyngor, lle cafodd adran Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ei ddefnyddio i gynnal dogfennau ymgynghoriad, deunyddiau atodol a manylion ynghylch sut i ymateb.

2.1.5 Sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer rhai nad ydynt yn gallu ymgysylltu'n ddigidol, sicrhawyd bod copïau caled o'r deunydd ymgynghori a'r wybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael ym mhrif leoliadau'r Cyngor: derbynfa'r prif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni a llyfrgelloedd cyhoeddus ar draws yr Ynys.

2.1.6 Gwnaed cyswllt uniongyrchol yn ogystal gydag ymgynghorwyr statudol, rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau wedi'u cofrestru ar gronfa ddata CDLl y Cyngor. Cysylltwyd drwy lythyron ac e-byst, gan eu gwahodd i gyfranogi a chyflwyno sylwadau. Cafodd e-bost atgoffa ei anfon at yr holl gysylltiadau ar y gronfa ddata cyn y dyddiad cau er mwyn annog ymatebion a gwneud yn fawr o gyfranogiad.

2.1.7 Darparwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy negeseuon a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

2.1.8 Gyda'i gilydd, darparodd y dulliau hyn fframwaith eang a chynhwysol ar gyfer ymgysylltu oedd yn gyson gyda Chynllun Ymwneud Cymunedol y Cyngor, a sicrhaodd bod cymunedau a rhanddeiliaid yn derbyn cyfleoedd ystyrlon i helpu llunio cyfeiriad newydd y Cynllun Datblygu Lleol.

## 2.2 Sgop yr Ymgynghoriad

2.2.1 Ceisiwyd adborth ar yr adrannau canlynol o'r Papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau:-

- ***Gweledigaeth ddrafft ar gyfer dyfodol Ynys Môn*** – roedd y Weledigaeth yn amlinellu darlun hirdymor o'r hyn ddylai Ynys Môn fod erbyn 2039, gan ganolbwyntio ar gymunedau cryfion, economi gydnerth, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogaeth i'r Gymraeg a thwf cynaliadwy wedi'i lunio o amgylch y prif aneddiadau a seilwaith.
- ***18 Amcan Strategol drafft*** – cafodd yr amcanion eu datblygu o'r prif faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol oedd yn effeithio ar Ynys Môn. Roeddent yn cysylltu'r CDLl gyda nodau ac amcanion cenedlaethol ac yn gosod y fframwaith ar gyfer datblygu polisi CDLl yn y dyfodol.
- ***Cyfeiriadau polisi lefel uchel ar gyfer pob thema sydd wedi'i hadnabod*** – roedd yr adran hon yn egluro'r dull cyffredinol fyddai'r CDLl yn ei gymryd ym mhob maes polisi (er enghraifft yr economi, tai, hinsawdd a seilwaith), gan gynnwys beth fyddai'n newid o'r cynllun cyfredol a pha dystiolaeth fyddai ei hangen. Roedd y cyfeiriadau hyn yn gosod y cyfeiriad cyffredinol cyn paratoi polisïau manwl.
- ***Senarios twf mewn tai a chyflogaeth amgen*** – cafodd y rhain eu cyflwyno fel ystod o wahanol opsiynau gan amlinellu lefelau posib o dwf mewn tai a chyflogaeth y gallai'r Ynys gynllunio ar eu cyfer, yn seiliedig ar dueddiadau'r boblogaeth, rhagolygon economaidd a phrosiectau mawr megis Wylfa a'r Porthladd Rhydd.
- ***Opsiynau strategaeth ofodol amgen ar gyfer dosbarthu datblygiad*** – cafodd y rhain eu cyflwyno fel agweddau gwahanol ar sut y gallai datblygiad gael ei rannu ar draws yr Ynys (er enghraifft, gan ganolbwyntio ar brif ganolfannau, yn fwy gwasgaredig, neu ddull cytbwys), er mwyn profi pa batrwm twf fyddai'r mwyaf cynaliadwy, y mwyaf realistig ac y gellir ei ddarparu fwyaf.

# Pennod 3

## 3.1 Adborth ar Brif Faterion, Heriau a Chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn

3.1.2 Derbyniwyd cyfanswm o 58 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori gan aelodau o'r cyhoedd, ymgynghorwyr statudol grwpiau cymunedol a sefydliadau.

3.1.3 Mae'r adborth a ddarparwyd yn dynodi cefnogaeth eang ar gyfer y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau arfaethedig, yn ogystal â thynnu sylw at y prif faterion a'r themâu i'w hystyried wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol symud yn ei flaen i'r cam nesaf.

3.1.4 Y themâu craidd a ailadroddwyd ar draws nifer o sylwadau a gyflwynwyd oedd:

- Y Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedol
- Tai a fforddiadwyedd
- Ymatebion i'r strategaeth ofodol
- Prosiectau mawr (Wylfa, y Porthladd Rhydd, AI a chanolfannau data)
- Capasiti seilwaith
- Yr amgylchedd, defnydd tir a bioamrywiaeth
- Twristiaeth
- Y broses ymgynghori

3.1.5 Darperir crynodeb byr o'r themâu, ynghyd ag ymateb y Cyngor, isod. Dylid nodi bod llawer o'r themâu yn gysylltiedig â'i gilydd ac, felly, ni ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain.

**3.1.6 Y Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedol**

- Pryder ynghylch dirywiad cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Beirniadaeth gref nad yw'r CDLl drafft yn rhoi'r Gymraeg wrth galon y broses gynllunio.
- Galwadau am:
    - Ddynodi ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o siarad Cymraeg
    - Asesiadau Traweffaith y Gymraeg ar gyfer datblygiadau mawr
    - Diffiniadau tynnach o "lleol" mewn polisi tai
    - Cyfyngiadau ar ail gartrefi a lletyau gwyliau
    - Blaenoriaeth ar gyfer preswylwyr lleol/sy'n siarad Cymraeg mewn tai fforddiadwy a thai cymdeithasol

| Ymateb y Cyngor: |
| --- |
| Mae diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg wedi'u hadnabod fel prif thema'r CDLl. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ar yr ynys a chynnal cymunedau cydlynol Cymraeg eu hiaith. Nod cynllun y Cyngor yw cyfrannu tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn |

2050, gyda ffocws ar gymunedau dysgu modern a datblygu strategaeth Gymraeg. Mae strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg y mae'r Cyngor wedi'i chyhoeddi yn gweithredu'n unol â safonau'r Gymraeg, ac mae'n cynnwys cynlluniau i gefnogi canolfannau Cymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu gydag ysgolion uwchradd.

Er gall y CDLl ddylanwadu ar batrymau datblygu a chefnogi'r iaith Gymraeg ar lefel leol, cydnabyddir bod rhai ffactorau sy'n effeithio ar ddefnydd iaith a marchnadoedd tai yn gweithredu ar lefel genedlaethol ac felly maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol nid yn unig y Cyngor, ond hefyd y system gynllunio.

Cydnabyddir y materion a godwyd yn y sylwadau ac maent yn adlewyrchu pryderon sy'n hysbys ynghylch traweffaith datblygiad ar y Gymraeg. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn ofalus wrth i'r Cyngor baratoi'r Strategaeth Ddewisol.

### 3.1.7 Tai a fforddiadwyedd

- Disgrifir fforddiadwyedd tai fel yr argyfwng canolog (cyfraddau pris tai uchel i incwm).
- Gwrthwynebiad i:
  - Orgyflenwi tai y tu hwnt i'r angen lleol
  - Ystadau mawr mewn pentrefi gwledig bach
  - Unedau fforddiadwy'n cael eu gwanhau neu eu hail ddosbarthu wedi iddynt dderbyn caniatâd
- Cefnogaeth gref ar gyfer:
  - Tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned a chwmnïau tai cydweithredol
  - Hunan-adeiladu ar gyfer teuluoedd lleol
  - Datblygiad ar raddfa fach, gynyddrannol
  - Atgyweirio stoc sy'n bodoli eisoes cyn rhyddhau caeau gwyrdd

Ymateb y Cyngor:

Mae'r Cyngor yn cydnabod problemau fforddiadwyedd yn y farchnad dai, fel y dangosir gan y dystiolaeth yn yr LHMA drafft. Bydd y CDLl newydd yn cynnwys gofynion ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy, a bydd darparu tai fforddiadwy yn cael ei flaenoriaethu ac ystyrir ei bod yn hanfodol cynnal cydlyniant cymunedol er mwyn galluogi pobl iau a theuluoedd i aros yn eu cymunedau.  Fodd bynnag, bydd angen i ofynion tai fforddiadwy a osodir yn y Cynllun Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar dystiolaeth hyfywedd a sicrhau bod modd cyflawni'r Cynllun o hyd.

### 3.1.8 Ymatebion i strategaeth ofodol

- Safbwyntiau rhanedig, ond yn fras:

  - Opsiwn A (ffocws ar brif anheddiadau) yn cael ei ffafrio ar gyfer seilwaith a chynaliadwyedd
  - Opsiwn B (gwasgaredig) yn cael ei gefnogi lle mae'n amddiffyn cymunedau gwledig sy'n siarad Cymraeg
  - Opsiwn C (coridorau trafnidiaeth) dibynadwyedd ar gar ar gyfer trafnidiaeth, ond croesewir y ffocws ar y seilwaith presennol
- Mae llawer yn argymell opsiynau hybrid neu a addaswyd, yn hytrach nag un model unigol pur.

| Ymateb y Cyngor:<br><br>Nodwyd y Sylwadau a byddant yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r Strategaeth Ddewisol. Bydd yr opsiynau'n cae eu mireinio wrth i dystiolaeth ychwanegol ddod ar gael. Mae'n debygol y bydd cyfres o opsiynau hybrid neu a addaswyd yn cael eu hystyried yn rhan o ddatblygiad y Strategaeth Ddewisol. |
|---|

### 3.1.9. Prif brosiectau/Strategaeth economaidd (Wylfa, Porthladd Rhydd, AI a chanolfannau data)

- Mynegwyd pryderon ynghylch traweffeithiau negyddol posib:
  - Niwclear Wylfa (traweffeithiau iaith, mewnfudo, risgiau hirdymor, cylchred bywyd carbon)
  - Parthau Porthladd Rhydd ac AI (cyflogaeth leol isel, lefelau defnydd uchel o ddŵr/ynni, elw yn gadael yr ynys)

| Ymateb y Cyngor:<br><br>Nodir y sylwadau ac byddent yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor ddrafftio'r Strategaeth a Ffefrir. Mae rhai o'r prosiectau mawr y cyfeirir atynt yn destun prosesau cydsynio cenedlaethol ac felly maent y tu allan i reolaeth uniongyrchol y CDLl. Fodd bynnag, gall y CDLl, ochr yn ochr â chanllawiau ategol fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) presennol Wylfa, helpu i ddylanwadu ar sut mae datblygiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno'n lleol a darparu fframwaith i reoli a lliniaru effeithiau negyddol posibl lle bo modd. |
|---|

### 3.1.10 Capasiti seilwaith

- Pryderon ynghylch:
  - Gorlwytho carthffosiaeth (Gwalchmai yn benodol)
  - Risgiau llifogydd a SuDS gael eu cymeradwyo ar ôl caniatâd cynllunio
  - Pwysau o ran cyflenwadau dŵr (dim ond dwy gronfa ar yr Ynys)

- Galwadau am:
  - Asesiadau seilwaith ymlaen llaw
  - Cymeradwyaeth gyhoeddus, orfodol SuDS cyn i ganiatâd gael ei roi
  - Gorfodi cryfach yn erbyn cymeradwyaeth ar hap

Ymateb y Cyngor:

Cydnabyddir bod darparu seilwaith yn amserol yn elfen hanfodol o'r CDLl ac yn ffactor bwysig sy'n galluogi datblygu cynaliadwy. Felly, bydd y Cynllun yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn cael ei gefnogi gan gapasiti seilwaith ddigonol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo dull cydlynol ac integredig o gynllunio, gweithio gyda darparwyr seilwaith, ac ystyried materion fel cydnerthedd, newid hinsawdd, a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio sicrhau bod gofynion seilwaith yn cael eu hasesu'n briodol a, lle bo modd, eu cyflawni ar y cŷd â datblygiad, ac yn ddelfrydol cyn y datblygiad, gan gydnabod bod rhai agweddau'n gyfrifoldeb cyrff allanol a phrosesau rheoleiddio. Nodir y sylwadau a chânt eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r Strategaeth a Ffefrir.

### 3.1.11 Yr amgylchedd, defnydd o dir a bioamrywiaeth

- Cefnogaeth ar gyfer gwarchod:
  - Y Dirwedd Genedlaethol / AHNE
  - Amgylchedd hanesyddol (CAHau, henebion, Safleoedd Treftadaeth y Byd)

- Gwrthwynebiad cryf i:
  - Ynni solar a gwynt ar raddfa fawr ar dir amaethyddol gorau a Mwyaf Hyblyg (BMV)

- Galwadau am:
  - Gynllunio diogelwch bwyd
  - Tyfu bwyd cymunedol
  - Gofynion bioamrywiaeth cryfach (e.e. briciau gwenoliaid, rhywogaethau sy'n ddibynnol ar adeiladau)

Ymateb y Cyngor:

Mae amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig yn brif flaenoriaethau i'r CDLl. Bydd y Cynllun yn cynnwys fframwaith polisi cadarn er mwyn diogelu tirweddau penodedig ac asedau treftadaeth, ac ar yr un pryd bydd yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg.

Bydd y CDLl yn ceisio cyflawni budd net ar gyfer bioamrywiaeth, hyrwyddo adferiad byd natur, a bod yn ystyrlon o bolisïau a chanllawiau cenedlaethol perthnasol.

Nodwyd y sylwadau a byddant yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r Strategaeth Ddewisol; bydd hyn yn cynnwys ymateb polisi i warchod asedau naturiol a hanesyddol.

### 3.1.12 Twristiaeth

- Pryderon ynghylch gor-dwristiaeth, nid twristiaeth gynaliadwy.

- Prif bryderon:
    - Ail gartrefi
    - Swyddi tymhorol cyflog isel
    - Colli tai ar gyfer pobl leol
    - Dirywiad yn yr iaith mewn ardaloedd arfordirol

Ymateb y Cyngor:

Nodir y sylwadau a byddant yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys datblygu ymatebion polisi sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth a rheoli ail gartrefi a llety gwyliau.

Cydnabyddir bod twristiaeth yn sector bwysig o fewn yr economi leol, sy'n cefnogi cyflogaeth, buddsoddiad a bywiogrwydd cymunedau ledled yr ardal. Felly, mae gan y CDLl rôl bwysig wrth gefnogi sector twristiaeth gynaliadwy, tra hefyd yn rheoli datblygiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a'i effeithiau, gan gynnwys ail gartrefi a llety gwyliau lle mae hyn yn ymwneud â defnydd tir. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhai o'r materion a godir, megis ansawdd cyflogaeth a phatrymau economaidd ehangach, yn cael eu dylanwadu gan ffactorau y tu hwnt i'r system gynllunio.

Bydd y Cynllun yn ceisio cefnogi dull cynaliadwy a chytbwys wrth ymdrin â thwristiaeth, gan gydnabod pwysigrwydd economaidd y sector tra hefyd yn amddiffyn cymunedau lleol, yr iaith Gymraeg, argaeledd tai ac ansawdd yr amgylchedd.

### 3.1.13 Y Broses Ymgynghori

- Beirniadaeth ynghylch:
    - Cyfnod ymgynghori byr
    - Cyhoeddusrwydd gwael
    - Cymhlethdod a hygyrchedd dogfennau

Ymateb y Cyngor:

Ymgymerwyd â'r ymgynghoriad yn unol â Chynllun Ymwneud Cymunedol y Cyngor ac mae'n cynrychioli cam cychwynnol anstatudol wrth baratoi'r CDLl.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch hyd y cyfnod ymgynghori, cyhoeddusrwydd a hygyrchedd deunyddiau. Fodd bynnag, ystyrir bod lefelau da o ymgysylltu wedi'i gyflawni ar y cam cynnar hwn, yn arbennig felly o ystyried mai dyma'r cyfle cyntaf ers nifer o flynyddoedd i randdeiliaid fod yn sail i ddatblygu cynllun newydd ar gyfer Ynys Môn.

Bydd y broses ymgynghori'n parhau i gael ei mireinio wrth i'r CDLl symud yn ei flaen, gyda chyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu ar gamau statudol dilynol.

## 3.2 Adborth ar y Weledigaeth ac Amcanion

3.2.1 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr at ei gilydd yn cefnogi'r weledigaeth gyffredinol a'i huchelgeisiau. Fodd bynnag, mae nifer o ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch cydnerthedd y weledigaeth o gofio graddfa'r bygythiadau hirdymor sy'n wynebu cymunedau, y Gymraeg, fforddiadwyedd tai a seilwaith.

3.2.2 Mae yna bryderon bod geiriad y weledigaeth yn rhywbeth rhy amhenodol a chyffredinol. Roedd nifer o sylwadau'n gofyn am gael cynnwys pynciau neu brosiectau penodol o fewn y weledigaeth.

3.2.3 Unwaith eto, mae'r sylwadau'n dynodi'r gefnogaeth eang sydd ar gyfer sgop a geiriad yr amcanion. Mae nifer o sylwadau'n mynegi pryderon ynghylch natur wrthgyferbyniol a chystadleuol yr amcanion. Mae yna geisiadau ar gyfer aildrefnu a chryfhau'r geiriad.

| Ymateb y Cyngor: |
|---|
| Mae'r sylwadau'n dynodi cefnogaeth gyffredinol i'r weledigaeth. Bydd y weledigaeth a'r amcanion yn cael eu hailweithio fel rhan o ddrafftio'r Strategaeth ddewisol, a bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth i'r sylwadau a'r diwygiadau fel eu bod yn ymgorffori argymhellion lle pennir eu bod yn briodol. |

## 3.3 Adborth ar opsiynau Twf

3.3.1 Nid oes consensws clir o blaid unrhyw opsiwn twf sengl. Mynegwyd amheuaeth gref ynghylch opsiynau twf uwch ac a fyddai'r manteision a nodwyd yn cael eu cyflawni'n realistig.  Mae llawer o ymatebion yn codi pryderon ynghylch mewnfudo, yr effaith bosibl ar yr iaith Gymraeg, a phwysau ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau.  Mae pwyslais penodol ar sicrhau bod twf yn ymateb i anghenion lleol, yn enwedig mewn perthynas â fforddiadwyedd tai.  Codwyd pryderon hefyd bod rhai rhagdybiaethau'n ddibynnol iawn ar brosiectau mawr a chyfleoedd buddsoddi, gan gynnwys Wylfa, y Porthladd Rhydd a thŵf sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial (AI), sy'n parhau i fod yn ansicr ac yn cael eu dylanwadu gan ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

3.3.2 Ymddengys bod sut a ble mae twf yn digwydd yn bwysicach na faint o dwf sydd wedi'i gynllunio.

| Ymateb y Cyngor: |
|---|
| Bydd rhinweddau'r opsiynau twf yn cael eu harchwilio'n llawn yn y dystiolaeth i gefnogi'r Strategaeth Ddewisol. |

## 3.4 Adborth ar yr opsiynau Gofodol

3.4.1 Does dim dewis gofodol dewisol unigol eglur, ond mae yna neges gref a chyson bod gan strategaeth ofodol ganlyniadau sylweddol i gynaliadwyedd y Gymraeg, pwysau ar seilwaith a chydlyniad cymunedol. Bydd nifer o ymatebwyr yn dadlau mai'r dewis o opsiwn gofodol yw'r penderfyniad pwysicaf yn y Cynllun.

3.4.2 Mae cyfran helaeth o'r ymatebwyr yn ffafrio naill ai Opsiwn A, Opsiwn B, neu gyfuniad o'r ddau, gydag Opsiwn C yn ymddangos i fod yr un a wrthwynebir fwyaf a'r un sy'n cael ei gefnogi leiaf yn gyffredinol.

| Ymateb y Cyngor: |
| --- |
| Bydd rhinweddau pob opsiwn gofodol yn cael eu harchwilio'n llawn yn y dystiolaeth i gefnogi'r Strategaeth Ddewisol. Mae'n debygol bod dull hybrid sy'n ceisio darparu'r mwyaf o draweffeithiau positif a buddion yn cael eu harchwilio. |

# Pennod 4

## 4.1 Casgliadau a Chamau Nesaf

4.1.1 Mae'r ymgysylltu a wnaed hyd yma ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ynys Môn wedi arddangos cefnogaeth eang ar gyfer y cyfeiriad strategol sy'n datblygu, gan gynnwys y Prif Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion. Mae'r adborth a dderbyniwyd yn dynodi bod angen peth gwaith mireinio wrth i'r Strategaeth Ddewisol gael ei pharatoi. O safbwynt lefelau twf ac agweddau at ofodau, bydd y Cyngor yn adfyfyrio'n ofalus ar y sylwadau a dderbyniwyd. Bydd y sylwadau'n cael eu hystyried wrth i'r Cyngor ddrafftio'r Strategaeth Ddewisol a thrwy'r dogfennau tystiolaeth cefnogol sy'n ystyried opsiynau ar gyfer Strategaeth Twf a Gofodol.

4.1.2 Y cam ffurfiol nesaf wrth baratoi'r CDLl Newydd fydd cyhoeddi'r Strategaeth Ddewisol, wedi'i gefnogi gan sail tystiolaeth gymesur, sydd wedi'i ddiweddaru.

4.1.3 Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am y cyfraniadau a dderbyniwyd gan gymunedau, rhanddeiliaid a sefydliadau hyd yma, sy'n parhau i chwarae rhan bwysig yn llunio'r Cynllun newydd. Fodd bynnag, unwaith mae'r Strategaeth Ddewisol yn cael ei chyhoeddi, gwahoddir sylwadau pellach. Mae ymgynghoriad y Strategaeth Ddewisol yn cynrychioli'r cam statudol cyntaf o baratoi'r cynllun, a bydd yr ymatebion a dderbyniwyd ar y cam yma yn sail uniongyrchol i gamau nesaf y CDLl Newydd.

4.1.4 Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltiad cynhwysol, bydd fersiwn Darllen Hawdd o'r Strategaeth Ddewisol yn cael ei baratoi, ochr yn ochr â deunyddiau atodol hygyrch, gan gynnwys canllawiau gweledol a digidol. Bydd ymgysylltiad yn parhau i gael ei ymgymryd ag o yn unol â'r Cynllun Ymwneud Cymunedol a amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan sicrhau cyfleoedd i bob cymuned a rhanddeiliaid i gyfranogi'n ystyrlon yn y broses.

4.1.5 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan gynnwys dogfennau cyhoeddedig, tystiolaeth gefnogol a manylion o weithgareddau ymgynghori, ar gael yn y Cynllun Datblygu Lleol 2024 i 2039.

This page is intentionally left blank